| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 19 Medi 2018 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rhesymau dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor. | |

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 31 Awst 2018 ynghylch:

- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ers 16 Gorffennaf 2018
- Gwaith dilyn i fyny a wnaed ar adroddiadau archwilio blaenorol
- Gweithredu y camau rheoli
- Y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2018/19
- Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd diweddaraf a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Yn ogystal gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

## Medi 2018

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**
**Pennaeth Archwilio a Risg**

## Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

1. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a nifer y Materion / Risgiau a godir yng nghynllun gweithredu'r adroddiad.

2. Rydym wedi cwblhau **pedwar** adroddiad yn y cyfnod hwn a cheir crynodeb ohonynt isod:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Cymedrol | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grant Gwella Addysg 2017/18 | **Sylweddol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grant Datblygiad Disgyblion 2017/18 | **Sylweddol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grant Gwisg Ysgol 2017/18 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| Monitro Cytundebau Priffyrdd | **Sylweddol** | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |

### Grant Gwella Addysg 2017/18 – Tystysgrif Archwilio

| Sicrwydd Sylweddol | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| | **0** | **Catastroffig** |
| | **0** | **Uchel** |
| | **0** | **Cymedrol** |
| | **0** | **Isel** |

3. O'r adolygiad o'r cofnodion grant, daethom i'r casgliad fod y Gwasanaeth Cyllid yn monitro'r gwariant a gafwyd mewn perthynas â'r grant ac o ganlyniad, roedd yr holl wariant a gofnodwyd mewn perthynas â'r grant hwn yn gymwys yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

4. Roedd yr holl incwm a dderbyniwyd mewn perthynas â'r grant hwn wedi'i gyfrif amdano yn y cyfriflyfr cyffredinol. Llwyddodd y Gwasanaeth Cyllid i dynnu ffigyrau gwariant ar gyfer y grant hwn o'r cyfriflyfr ariannol, ac fe gafodd ei nodi'n gywir yng nghyfrifon yr Awdurdod.

5. Ni chafodd unrhyw risgiau eu nodi ar gyfer sylw'r rheolwyr.

6. Roedd modd felly i ni ddarparu **‘Sicrwydd Sylweddol’** bod y Gwasanaeth Cyllid yn cynnal rheoliadau a chofnodion digonol a chywir mewn perthynas â’r Grant Gwella Addysg ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018.

## Grant Datblygiad Disgyblion 2017/18 – Tystysgrif Archwilio

| | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Sylweddol** | **0** | **Catastroffig** |
| | **0** | **Uchel** |
| | **0** | **Cymedrol** |
| | **0** | **Isel** |

7. Yn dilyn ein hadolygiad o reoliadau a chofnodion y grant, daethom i’r casgliad fod y gwariant a hawliwyd yn gymwys ac yn unol ag amodau a thelerau’r grant a’i fod wedi’i nodi’n deg yng nghyfrifon yr Awdurdod a bod yr hawliadau wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

8. Ni chafodd unrhyw risgiau eu codi ar gyfer sylw’r rheolwyr.

9. Roedd modd felly i ni ddarparu **‘Sicrwydd Sylweddol’** bod y Gwasanaeth Cyllid yn cynnal rheoliadau a chofnodion digonol a chywir mewn perthynas â’r Grant Datblygiad Disgyblion ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018.

## Grant Gwisg Ysgol 2017/18 – Tystysgrif Archwilio

| | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** | **0** | **Catastroffig** |
| | **0** | **Uchel** |
| | **0** | **Cymedrol** |
| | **3** | **Isel** |

10. Yn dilyn ein hadolygiad o’r rheoliadau a chofnodion grant, daethom i’r casgliad nad oedd y rheoliadau a oedd yn eu lle yn ddigonol er mwyn sicrhau bod y gwariant a hawliwyd yn gymwys, yn fanwl gywir ac yn unol â’r amodau a thelerau a ddarparwyd. Fodd bynnag, ni achosodd y materion a gafodd eu hadnabod unrhyw gamgymeriadau sylweddol ac felly maent yn risg isel i’r Cyngor fel y nodir gan fatrics rheoli risg y Cyngor.

11. Fe wnaethom godi tri risg ar gyfer sylw’r rheolwyr. Fodd bynnag, fe ddylai rheolwyr fedru gweithredu’r camau angenrheidiol yn ddi-drafferth er mwyn gallu mynd i’r afael â’r risgiau hyn.

12. Rydym felly yn gallu darparu **‘Sicrwydd Rhesymol’** oherwydd nad oedd y camgymeriadau a gafodd eu darganfod yn sylweddol.

## Monitro Cytundebau Priffyrdd

| | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 0 | Catastroffig |
| | 0 | Uchel |
| | 1 | Cymedrol |
| | 0 | Isel |

13. Mae gan yr Adain Briffyrdd broses gadarn yn ei lle ar gyfer monitro contractau; cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r contractwr, caiff gwariant a pherfformiad eu monitro'n agos, caiff gwaith ei flaenoriaethu yn unol â'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a chymerir i ystyriaeth hefyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol wrth gynllunio'r rhaglen waith. Cytunir ar amrywiadau gyda'r contractwr er mae cyfleon i wella mynediad at y wybodaeth hon.

14. Ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth yn cadw cofrestr contractau. Mae cofrestr yn ddefnyddiol i fonitro dyddiadau tendro sydd ar y gorwel a sicrhau cydymffurfiaeth o safbwynt caffael ynghyd â darparu gwybodaeth y mae'n rhaid ei rhannu gyda'r Adain Caffael Gorfforaethol ar gyfer ei chynnwys yn y gofrestr gontractau gorfforaethol. O ganlyniad, mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar hyn o bryd yn y gofrestr gontractau gorfforaethol yn hen ac yn anghywir. Gall cofrestr fod o gymorth hefyd i sicrhau bod yr holl gontractau'n cydymffurfio gyda rhai mesurau penodol megis GDPR a diogelu, ble mae hynny'n berthnasol.

15. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad bod rheolaethau effeithiol yn eu lle ar y cyfan i fonitro contractau cynnal a chadw priffyrdd ac o'r herwydd gallwn roddi **'Sicrwydd Sylweddol'** bod y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda.

## Dilyn i Fyny Adroddiadau Archwilio Mewnol Blaenorol

16. Trefnwyd bod **chwe** adroddiad â graddfa **‘Sicrwydd Cyfyngedig’** yn cael eu dilyn i fyny. Mae manylion y Materion/Risgiau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad Materion Archwilio Mewnol/Risgiau sy’n weddill’ a gyflwynwyd i’r cyfarfod hwn ar wahân. Mae **pedwar** adolygiad dilyn i fyny ar y gweill ar hyn o bryd:

| Teitl yr Archwiliad | Rheswm dros yr Adolygiad | Dyddiad dilyn i fyny | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyledwyr Amrywiol** | Dilyn i fyny am y tro cyntaf | Gorff-18 | Cyfyngedig | 0 | 7 | 9 | 3 | 19 |
| **Gorchmynion Llys Gofal plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Gorff-18 | Cyfyngedig | 1 | 3 | 3 | 1 | 8 |
| **Fframwaith Caffael Corfforaethol** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Gorff-18 | Cyfyngedig | 1 | 1 | 9 | 1 | 12 |
| **Paratoadau’r Cyngor ar gyfer GDPR** | Dilyn i fyny am y tro cyntaf | Awst-18 | Cyfyngedig | 0 | 6 | 1 | 1 | 8 |
| **Cydymffurfio â Safon Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Hydref-18 | Cyfyngedig | 0 | 6 | 4 | 1 | 11 |
| **Rheoli Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau** | Dilyn i fyny am y trydydd tro | Rhag-18 | Cyfyngedig | 0 | 3 | 2 | 0 | 5 |

## Camau Gweithredu gan Reolwyr

17. Mae adroddiad manwl o'r holl argymhellion sy'n weddill a'r holl Faterion/Risgiau wedi ei gynnwys ar wahân i'r cyfarfod hwn.

## Cynnydd o ran cyflanwi'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19

18. Mae'r Cynllun presennol ynghlwm yn Atodiad A. Bu'r cynnydd yn araf o ganlyniad i ddwy swydd wag ac absenoldeb salwch tymor hir. Fodd bynnag, mae dau Uwch Archwiliwr Mewnol bellach wedi dechrau yn eu swyddi ac maent wrthi'n gwneud eu hyfforddiant cynefino ar hyn o bryd. Am y tro cyntaf ers Awst 2017, mae gennym bellach y nifer cywir o staff.

19. Yn ogystal ag ymgymryd â gwaith dilyn i fyny, mae gwaith ar y gweill mewn **dau** maes:

- Adolygiad Thematig Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm
- Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014)

20. Rydym hefyd yn ymwneud â dau ymchwiliad parhaus a'r gwaith o symud y cofrestri risg i'r feddalwedd Rheoli Risg newydd yn ogystal â gweithio gyda gwasanaethau er mwyn ystyried sicrwydd ansawdd eu risgiau.

## Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

21. Mae'r cylch gorchwyl wedi ei adolygu'n gyfan gwbl yn dilyn cyhoeddiad canllawiau newydd CIPFA[1] ar bwyllgorau archwilio ac fe'i gyflwynir ar wahân ar gyfer cymeradwyaeth y cyfarfod hwn o'r pwyllgor.

[1] *'Pwyllgorau Archwilio, Canllawiau Ymarferol i Awdurdodau Lleol a'r Heddlu'*, Rhifyn 2018, CIPFA

## Atodiad A – Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2018/19[2]

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETH GYFAN** | | | | | | | |
| Corfforaethol | Parhad Busnes | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM10 | 10 | | | |
| Corfforaethol | Diwygio Lles | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM11 | 10 | | | |
| Corfforaethol | Diogelu Corfforaethol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 YM12 | 10 | | | Rhagfyr 2018 |
| Corfforaethol | CONTEST (Atal Terfysgaeth ac Atal Radicaleiddio) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | E1 YM34 | 10 | | | |
| Corfforaethol | Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCIDSS) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D1 YM41 | 10 | | | Chwefror 2019 |
| Corfforaethol | Rheoli Risg | Proses newydd wedi'i gweithredu ym mis Hydref 2017. Meddalwedd 4Risk wedi'i gweithredu Medi 2018. Bydd yn ddibynnol ar Wiriad iechyd annibynnol gan ein hyswirwyr. | Amherthnasol | Amh | Amh | | Chwefror 2019 |
| Corfforaethol | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Bydd yn destun adolygiad penodol gan Swyddfa Archwilio Cymru | Amherthnasol | 5 | | | |

[2] Cofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i chymeradwyo gan yr UDA 12/02/18

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – gofynion Rhan 9 | Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Estyniad gan LlC i weithredu cyllidebau wedi'u cyfuno | Amherthnasol | 5 | | | |
| Corfforaethol | Rheoli Risg Twyll | Gofyniad gan PSIAS | Amherthnasol | 10 | | | |
| **ADNODDAU** | | | | | | | |
| Adnoddau | Adennill a Dileu dyledion | Systemau Ariannol Allweddol – pryderon A151 | Amherthnasol | 15 | | | |
| Adnoddau | Incwm | System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol | Amherthnasol | 15 | | | |
| Adnoddau | Cyflogres | System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol | Amherthnasol | 15 | | | |
| **TRAWSNEWID** | | | | | | | |
| TGCh | Archwiliad TG – Diogelwch Seibr | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1<br>YM35 | 15 | | | |
| TGCh | Archwiliad TG – Seilwaith TG | Cofrestr Risg Gwasanaeth | D2<br>T2 | 10 | | | |
| AD | Recriwtio a Chadw | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2<br>YM5 | 15 | | | |
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Rhaglen Ynys Ynni (yn cynnwys cynlluniau mawr megis Wylfa Newydd) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2/D2<br>YM15<br>YM19/20 | 10 | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwasanaethau Hamdden | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B3<br>YM39 | 10 | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwasanaethau Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth | Cais y Pennaeth Gwasanaeth – newidiadau strwythurol mawr | Amherthnasol | 15 | | Wedi ei gario drosodd o 2017/18 | Medi 2018 |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PRIFFYRDD, GWASTRAFF A GWASANAETHAU EIDDO** | | | | | | | |
| Priffyrdd | Gwasanaethau Parcio Ceir – Gorfodaeth | Arbrawf newydd mewn lle o 2017/18 gyda sefydliad allanol ar gyfer gorfodi rheolau parcio | Amherthnasol | 15 | | | |
| Priffyrdd | Trefniadau Monitro Contract Priffyrdd | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | Amherthnasol | ~~15~~ 10 | 10 | Sicrwydd Rhesymol | Medi 2018 |
| **TAI** | | | | | | | |
| Tai / Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Datblygu Tai Cyngor | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 YM 42 | 15 | | | |
| Tai | Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2/A4 YM36/37 | 10 | 0.25 | | |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | | | | |
| Oedolion | Trefniadau Diogelu rhag Collid Rhyddid | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM32 | ~~15~~ 9 | 9 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Gorffennaf 2018** |
| Oedolion | Taliadau Uniongyrchol | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | Amherthnasol | 10 | 0.5 | Wedi ei gario drosodd o 2017/18 | Medi 2018 |
| **GWASANAETHAU PLANT** | | | | | | | |
| Plant | Bwrdd Integredig Cyflenwi Gwasanaeth | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM43 | 10 | | | |
| **DYSGU** | | | | | | | |
| Dysgu | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) – gweithredu mewn Ysgolion | Cofrestr Risg Gorfforaethol. Bydd yn ddibynnol ar Wiriad iechyd annibynnol gan ein hyswirwyr. | C2 YM38 | Amh | Amh | | |
| Dysgu | Adolygiadau Thematig Ysgolion Cynradd | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | Amherthnasol | 20 | 16 | Wedi ei gario drosodd o 2017/18 | Medi 2018 |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ARDYSTIO GRANTIAU** | | | | | | | |
| | Grant Rhentu Doeth Cymru | Anghenion Grantiau | Amherthnasol | 10 | 10 | **Sicrwydd Sylweddol** | **Gorffennaf 2018** |
| | Grant Gwisg Ysgol | | | | | **Sicrwydd Rhesymol** | **Medi 2018** |
| | Grant Gwella Addysg | | | | | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| | Grant Datblygu Disgyblion | | | | | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| | **CYFANSWM ARCHWILIADAU** | | | **299** | **46** | | |
| **DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Gwaith Dilyn i Fyny | Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig angen eu dilyn i fyny, yn cynnwys adrodd a gweinyddu 4Action | | 50 | 29.25 | | |
| | Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, Menter Dwyll Genedlaethol, ymholiadau ac atgyfeiriadau | | | 60 | 22.75 | | |
| | Cau gwaith y flwyddyn flaenorol | | | 18.5 | 18.5 | | |
| | Ymgynghoriaeth Corfforaethol | | | 60 | 21 | | |
| | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn cynnwys hyfforddiant i aelodau | | | 40 | 5 | | |
| | Adolygiad Rheoli | | | 40 | 5 | | |
| | Digwyddiadau Annisgwyl | | | 0 | 0 | | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CYFANSWM** | | | **269** | **117** | | |
| **DYDDIAU NAD OES MODD CODI AMDANYNT (DDIM YN GYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Risg ac Yswiriant | | | 20 | 6 | | |
| | Gweinyddu Cyffredinol | | | 40 | 15 | | |
| | Datblygiad Personol ac Adolygiad, Cyfarfodydd 121 a Thîm | | | 30 | 4.25 | | |
| | Rheoli, yn cynnwys cysylltu ag Archwilio Allanol a pharatoi cynllun archwilio | | | 40 | 21 | | |
| | Gwyliau, yn cynnwys blynyddol, statudol, arbennig a salwch | | | 357 | 123.75 | | |
| | Hyfforddiant a Datblygiad staff, yn cynnwys sesiynau cynefino a gwersi Cymraeg | | | 119 | 25 | | |
| | **CYFANSWM** | | | **606** | **195** | | |
| | **CYFANSWM ADNODD** | | | **1174** | | | |
| | **ADNODD SYDD AR GAEL** | | | **1096** | | | |
| | **DIFFYG O RAN ADNODD** | | | **-77** | | | |
| | **CYNHYRCHIANT** | | | **49%** | | | |